Oliver Griffiths

Cyfarwyddwr Grŵp, Diogelwch Ar-lein

Ollie Illott

Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro ar gyfer Technoleg sy'n Dod i'r Amlwg a Deallusrwydd Artiffisial, Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg

16 Mehefin 2026

Annwyl Ollie,

Yn dilyn y llythyr gan y Fonesig Melanie Dawes at yr Ysgrifennydd Gwladol ddoe, rwy'n gobeithio y bydd yn ddefnyddiol nodi mwy o fanylion ynghylch ar sut mae Ofcom yn paratoi i gyflawni ehangu cyfyngiadau cyfryngau cymdeithasol i blant.

**<u>Diogelwch Newydd i Blant</u>**

Rydym yn barod i weithredu'r gwaharddiad cyfryngau cymdeithasol a mesurau ar gyfyngu ar swyddogaethau peryglus fel mater o flaenoriaeth, a diolch i chi am gadarnhau cyllid ychwanegol i gwmpasu'r meysydd gwaith newydd hyn. Edrychwn ymlaen at weithio'n agos gyda chi a'ch tîm fel bod gennym olwg glir ar yr hyn sy'n ofynnol gan Ofcom, gan ganiatáu inni ddatblygu cynlluniau gweithredu manwl ac achos busnes ar gyfer cyllid.

Gwers glir o'r flwyddyn gyntaf o weithredu'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yw bod eglurder yn y gyfraith yn hwyluso cydymffurfio a gorfodi llwyddiannus. Byddem yn annog rheoliadau'r Llywodraeth i fod mor glir a phenodol â phosibl, gan gynnwys am y gwasanaethau y bydd y cyfyngiadau hyn yn berthnasol iddynt a'r rhai na fyddant yn berthnasol iddynt. Byddai hyn yn caniatáu i Ofcom symud yn gyflym i weithredu'n fanwl ac yna gyrru gwelliannau gwirioneddol i blant ar-lein cyn gynted â phosibl.

Rydym eisoes wedi dechrau'r gwaith i gefnogi ystyriaeth y Senedd o'r rheoliadau y bydd y llywodraeth yn eu gosod yn ddiweddarach eleni, a gallaf gadarnhau y byddwn yn cyflwyno asesiad technegol o Sicrwydd Oedran Hynod Effeithiol 16 oed erbyn diwedd mis Hydref. Ein sylwadau cychwynnol yw:

- Dylai'r sicrwydd oedran 16 oed fod yn dechnegol ymarferol ond bod llai o ddulliau ar gael ar hyn o bryd nag yn 18 oed. Er enghraifft, nid yw amcangyfrif oedran yn seiliedig ar e-bost na gwiriadau cardiau credyd yn berthnasol neu nid ydynt ar gael yn 16 oed. Mae gennym fwy o waith i'w wneud i ddeall effeithiolrwydd a hygyrchedd gwahanol ddulliau, argaeledd nodweddion hunaniaeth ac oedran yn 16 oed, ac ystyriaethau preifatrwydd gwahanol ddulliau presennol a dulliau sy'n dod i'r amlwg. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r ICO wrth i ni ddatblygu'r asesiad.
- Bydd amrywiaeth o heriau gweithredu ymarferol, gan gynnwys cywirdeb ar oedrannau ffiniol a sut i fynd i'r afael â "heneiddio" cyfrifon plant. Bydd angen eglurder ar rai gwasanaethau ar sut i sicrhau bod eu proses sicrwydd oedran yn hynod effeithiol wrth

benderfynu’n gywir ar ddefnyddwyr sy'n 18+ a 16+ oed, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau rheoleiddiol cydamserol.

- Rydym eisoes yn dysgu am ddylunio, gweithredu, a gorfodi effeithiol gan gyfundrefn newydd yn Awstralia. Er enghraifft, mae rhai gwasanaethau sy'n debygol o gael eu dal gan y gwaharddiad wedi dibynnu ar fodelau casglu oedran (lle mae gweithgarwch defnyddwyr yn cael ei ddadansoddi i amcangyfrif oedran) i gyflawni eu rhwymedigaethau yn Awstralia. Nid yw'r dystiolaeth eto’n dangos y gall y modelau hyn ddarparu ateb effeithiol sy’n diogelu preifatrwydd ar gyfer gwaharddiad dan 16 oed.
- Mae gwiriadau oedran yn fwyaf effeithiol pan gânt eu hymgorffori o fewn sawl cam yn nhaith y defnyddiwr. Bydd ein hadroddiad sicrwydd oedran ym mis Gorffennaf yn asesu defnydd, effeithiolrwydd a heriau'r dull statudol lefel gwasanaeth presennol o sicrwydd oedran. Yn y hir dymor, gall dull haenog neu system gyfan fod yn fwyaf effeithiol, gan leihau osgoi a chynyddu ymddiriedaeth y cyhoedd. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad dilynol ym mlwyddyn gyntaf ar ôl i'r gwaharddiad cyfryngau cymdeithasol dod i rym i ystyried yn benodol y mater o ddadleoli.

Ar eu pen eu hunain, ni all gwiriadau oedran atal yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â phlant ar-lein. Fel nodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, mae angen i'r cyfyngiadau newydd hyn fod yn rhan o ddull cymdeithasol ehangach. Rydym wedi ymrwymo i helpu plant a rhieni i lywio'r byd ar-lein a datblygu arferion sgrin iach ac ymddygiadau diogel ar-lein. Yn ddiweddarach y mis hwn, bydd Ofcom yn cyhoeddi Datganiad o Argymhellion Llythrennedd yn y Cyfryngau i gefnogi gwasanaethau i gymryd camau rhagweithiol i rymuso plant ac oedolion i ymgysylltu â chynnwys ar-lein yn feirniadol ac yn ddiogel.

**<u>Gweithredu a chyflawni ehangach</u>**

Mae polisïau newydd y Llywodraeth a gyhoeddwyd ddydd Llun yn rhan o set ehangach o newidiadau i'r drefn ddiogelwch ar-lein. Rydym eisoes yn gweithio ar y gwelliannau i'r gyfundrefn diogelwch ar-lein a gyflwynwyd trwy Ddeddf Troseddu a Phlismona 2026. Mae'n debygol y bydd newidiadau pellach yn deillio o ystyriaeth y Llywodraeth o gyfyngiadau oedran a dyletswyddau diogelwch i sgwrsfotiau deallusrwydd artiffisial (AI), yn ogystal â chyrfryw amser sgrin i ddiogelu plant rhag niwed newydd. Rydym hefyd yn olrhain mentrau i ddiogelu uniondeb etholiadau.

Mae'r gwaith newydd hwn yn ychwanegol at raglen brysur sy'n bodoli eisoes. Ochr yn ochr â chydymffurfio â dyletswyddau'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein, mae gan Ofcom gyfrifoldebau statudol i gyflwyno cyfres o adroddiadau eleni, gan gynnwys adroddiad am y defnydd o siopau apiau ac adroddiad ar gynnwys sy'n niweidiol i blant. Rydym hefyd wedi ymrwymo i weithredu elfennau sy'n weddill o'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein, gan gynnwys cyhoeddi'r gofrestr o wasanaethau wedi'u categoreiddio, ymgynghori ar ddyletswyddau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau wedi'u categoreiddio, a sefydlu swyddogaethau newydd i gwmpasu mynediad ymchwilwyr a gosod safonau achredu gofynnol ar gyfer Hysbysiadau Technoleg. Bydd angen i ni hefyd ystyried pa newidiadau fydd eu hangen i'r Codau presennol, a'u gorfodi, yng ngoleuni'r gwaharddiad.

Bydd angen adnoddau ychwanegol a blaenoriaethu clir er mwyn gallu cyflawni'r rhaglen waith cyfunol hon. Byddwn yn datblygu achos busnes dros yr wythnosau nesaf a byddwn yn ddiolchgar am ymgysylltu manwl â'ch tîm, gan gynnwys i ddeall safbwyntiau'r llywodraeth ar ddilyniannu a blaenoriaethu.

Wrth i ni gychwyn ar y bennod newydd hon ar gyfer diogelwch ar-lein, hoffwn bwysleisio ymrwymiad Ofcom i graffu ac ymgysylltu. Yn ei llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol ddoe, dywedodd y Fonesig Melanie ein bod yn agored i gryfhau ein hatebolrwydd i'r Senedd ac y byddem yn gwerthfawrogi cynigion Seneddol yn y maes hwn. Rydym yn nodi'r pwyslais penodol y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'i roi ar orfodi ac edrychwn ymlaen at ymgysylltu'n ddyfnach â Seneddwyr ar ein dull o yrru cydymffurfiaeth â'r gyfundrefn, wrth nodi'r cyfyngiadau a osodir arnom gan y prosesau cyfreithiol ar achosion unigol a phwysigrwydd cadw hyblygrwydd i ymateb i sefyllfaoedd sy'n datblygu.

Edrychaf ymlaen at weithio'n agos gyda chi a'ch tîm ar yr agenda hanfodol hwn dros y misoedd nesaf.

Yn gywir

Oliver Griffiths